# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 11 Hydref 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3996

## 23(v6)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.19

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cymunedau Cryf

Dechreuodd yr eitem am 14.29

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid yr UE

Dechreuodd yr eitem am 15.19

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Dechreuodd yr eitem am 15.54

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Band Eang Cyflym Iawn yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.37

## 7 Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb – Cynnydd a Heriau

Dechreuodd yr eitem am 17.27

**NDM6113** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb.

2. Cydnabod, yn sgil digwyddiadau diweddar, yr heriau parhaus sy'n bodoli o ran troseddau casineb.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi argymhellion allweddol y 'Prosiect Ymchwil Trosedd Casineb Cymru Gyfan', sy'n cynnwys:

a) bod angen gwneud mwy i ennyn hyder dioddefwyr a thystion i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb a hyrwyddo'r farn mai rhoi gwybod am gasineb yw'r peth iawn i'w wneud; a

b) dylid gwneud mwy i sicrhau y caiff y rhai sy'n cyflawni troseddau casineb eu trin yn effeithiol ac y dylid sicrhau bod dulliau adferol ar gael yn fwy eang yng Nghymru.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NDM6113** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud drwy Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb.

2. Cydnabod, yn sgil digwyddiadau diweddar, yr heriau parhaus sy'n bodoli o ran troseddau casineb.

Yn nodi argymhellion allweddol y 'Prosiect Ymchwil Trosedd Casineb Cymru Gyfan', sy'n cynnwys:

a) bod angen gwneud mwy i ennyn hyder dioddefwyr a thystion i roi gwybod am ddigwyddiadau casineb a hyrwyddo'r farn mai rhoi gwybod am gasineb yw'r peth iawn i'w wneud; a

b) dylid gwneud mwy i sicrhau y caiff y rhai sy'n cyflawni troseddau casineb eu trin yn effeithiol ac y dylid sicrhau bod dulliau adferol ar gael yn fwy eang yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Arllwysiad Olew yn Nantycaws,Caerfyrddin

Dechreuodd yr eitem am 18.17

## 9 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.43

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 12 Hydref 2016**